# CYNGOR SIR CEREDIGION

## DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal |
| **GWASANAETH:** | Porth Gofal |
| **GRADDFA:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol |
| **RHEOLWR LLINELL WEINYDDOL SYLFAENOL:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol – Porth Cynnal |
| **LLEOLIAD:** | Penmorfa, Aberaeron |
| **ORIAU GWAITH:** | 37 awr ac fel sy'n ofynnol i gyflawni gofynion y llwyth gwaith |

**PRIF BWRPAS Y SWYDD:**

- I ddirprwyo ar ran y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol pan fo angen.
- Bod yn Swyddog Arweiniol Corfforaethol ac yn gynghorydd arweiniol i'r Cyngor ar bob mater sy'n ymwneud â Gwasanaethau Preswyl a Gofal Dydd; Gwasanaethau Brysbennu ac Asesiad Integredig, a Gwasanaethau Tymor Byr wedi'i Thargedu.
- Arwain a rheoli'n strategol o fewn model rheoli ar y cyd, gan sicrhau darparu gwasanaethau yn effeithiol a chyflawni amcanion corfforaethol trwy gydweithredu a rhannu cyfrifoldeb.
- Er bod gan Swyddogion Arweiniol Corfforaethol gyfrifoldeb penodol am reoli ac arwain portffolios gwasanaethau, byddant hefyd yn gweithio'n agos gydag uwch arweinwyr eraill i ddatblygu a gweithredu mentrau strategol trwy feithrin amgylchedd cydweithredol sy'n annog gwaith tîm a gwneud penderfyniadau ar y cyd.
- Gweithio'n greadigol ac yn strategol er mwyn cyflawni'r safonau uchaf posibl o ran perfformiad gwasanaethau Cyngor Sir Ceredigion.

**PRIF GYFRIFOLDEBAU:**

### Strategol

- Cynnal ac arwain gwerthoedd ac ymddygiadau Tîm Ceredigion, gan hyrwyddo diwylliant sy'n canolbwyntio ar y dinesydd bob amser.
- Gweithio gyda, a chefnogi, uwch arweinwyr i ddarparu gweledigaeth, arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol i alluogi gwasanaethau i ddatblygu a gweithredu polisïau effeithiol sy'n gyson ag amcanion a safonau'r Cyngor.
- Gweithredu fel swyddog arweiniol, gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r Cyngor a thrigolion Ceredigion.

### Gweithredol

- Bod yn brif swyddog arweiniol y Cyngor gyda chyfrifoldeb dros Borth Gofal, gan arwain ar berfformiad gwasanaethau, gwelliant parhaus a defnydd effeithiol o adnoddau ar draws y portffolio.
- Sicrhau rheolaeth effeithiol ac effeithlon dros ystod o wasanaethau drwy gydol oes gan gynnwys:
  - Brysbennu ac asesu ymholiadau gofal cymdeithasol
  - Ymyriadau targedig a thymor byr (gan gynnwys Therapi Galwedigaethol) a gwasanaethau galluogi (gofal cartref)
  - Gwasanaethau dyletswydd argyfwng ac allan o oriau
  - Taliadau uniongyrchol a chyfarpar gofal cymunedol
  - Gwasanaethau dydd a gofal preswyl (oedolion a phlant)

**Rheoli ansawdd a pherfformiad**

- Sicrhau bod anghenion cwsmeriaid yn cael eu deall ac yn cael eu hadlewyrchu wrth ddarparu a gwella gwasanaethau.
- Cynllunio a darparu gwasanaethau mewn modd cydlynol, yn unol â pholisïau, safonau a phrosesau llywodraethu democrataidd y Cyngor.
- Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu cadw'n gyfredol yn unol â deddfwriaeth ac arferion gorau.
- Gwerthuso ac adrodd ar berfformiad yn erbyn cynlluniau statudol ac anstatudol, cynlluniau busnes a dangosyddion perfformiad.
- Rheoli cyllid gwasanaethau'n effeithiol, gan gynnwys paratoi a rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf yn unol â Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol, a mynd i'r afael â phwysau cyllidebol.
- Nodi a dilyn cyfleoedd cyllido allanol a modelau cyflenwi amgen, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth.
- Monitro'r tirlun gwasanaethau cyhoeddus newidiol a defnyddio tystiolaeth genedlaethol a lleol i herio, arloesi a gwella darpariaeth.
- Cynnal safonau perfformiad uchel ar draws y gwasanaeth, cydnabod perfformiad da a delio'n effeithiol â pherfformiad gwael.
- Cynnal trosolwg o risgiau gwasanaethau, gan gynnwys cwynion.
- Cydweithio ag aelodau eraill o'r Grŵp Arweinyddiaeth i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon i'r Cyngor.
- Ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i anghenion y Cyngor, cwsmeriaid a phartneriaid.
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal mewn cyflogaeth a darpariaeth gwasanaethau, gan fodloni dyletswyddau cyfreithiol a moesol y Cyngor.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n briodol i'r swydd, gan gynnwys cynllunio argyfwng, rheoli ac arwain ymatebion, rheoli risgiau a diogelu.

**Cyfathrebu**

- Adolygu dulliau cyfathrebu staff i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn galluogi adborth dwy ffordd.
- Hyrwyddo diwylliant o gyfathrebu mewnol ac allanol clir a chyson.
- Cynnal perthnasoedd gwaith effeithiol gydag Aelodau Etholedig, gan ddarparu cyngor a gwybodaeth amserol lle bo angen i gefnogi penderfyniadau.

## SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL – PORTH GOFAL

## MANYLEB PERSON

| | **Dymunol neu Hanfodol** |
|---|---|
| | |
| **Cymwysterau** | |
| Addysg hyd at lefel gradd mewn Gofal Cymdeithasol, Iechyd neu faes perthnasol, neu brofiad cyfatebol | Hanfodol |
| Cofrestriad cyfredol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (neu HCPC yn Lloegr) neu ymrwymiad i fodloni'r gofynion cofrestru | Hanfodol |
| Tystiolaeth o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus | Hanfodol |
| Cymhwyster uwch reoli cydnabyddedig | Dymunol |
| **Profiad o Lywodraeth Leol** | |
| Dealltwriaeth ragorol o rôl aelodau etholedig a'r broses o wneud penderfyniadau mewn amgylchedd gwleidyddol | Hanfodol |
| Profiad o weithio o fewn llywodraeth leol gan gynnwys ymwybyddiaeth o sensitifrwydd a chyd-destun gwleidyddol y rôl | Dymunol |
| Gwybodaeth drylwyr o fframweithiau'r polisïau cenedlaethol y mae'r Cyngor yn gweithredu o'u mewn. | Hanfodol |
| **Profiad o Uwch Reoli** | |
| Profiad o reoli maes gwasanaeth yn llwyddiannus mewn sefydliad aml-swyddogaethol ac yn dangos llwyddiant sy'n dylanwadu'n sylweddol ar berfformiad. | Hanfodol |
| O leiaf 5 mlynedd o brofiad rheoli perthnasol ym maes gofal cymdeithasol, iechyd neu faes perthnasol | Hanfodol |
| Hanes o berfformiad da o ran arwain, rheoli a gwella timau amlddisgyblaethol yn barhaus ac mewn modd llwyddiannus er mwyn cyflawni newid positif o fewn gwasanaethau cyhoeddus | Hanfodol |

| **Darparu Gwasanaethau** | |
|---|---|
| Gwerthfawrogiad o'r cyfrifoldeb a'r gofynion o ran rôl y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn dirprwyo ar ran y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol – Porth Cynnal | Hanfodol |
| Dealltwriaeth ragorol o'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau o ran eu hymwneud â Porth Gofal | Hanfodol |
| Cofnod llwyddiannus o ddadansoddi materion, datblygu strategaethau ar sail draws-swyddogaethol, a llunio cynlluniau gwasanaeth sy'n seiliedig ar anghenion ac sy'n cyflawni gwelliannau o ran ansawdd a chostau. | Hanfodol |
| Dealltwriaeth ragorol o brosesau rheoli perfformiad a chynllunio busnes gyda'r gallu i gyfeirio'r wybodaeth hon at wella perfformiad sy'n canolbwyntio ar y cwsmeriaid yn barhaus | Hanfodol |
| **Rheoli Adnoddau** | |
| Profiad helaeth o reoli adnoddau dynol ac ariannol ar raddfa eang yn unol â'r polisïau a'r blaenoriaethau a gytunwyd yn eu cylch ac o fewn fframweithiau ffurfiol costau a safonau ansawdd | Hanfodol |
| **Gweithio mewn Partneriaeth** | |
| Tystiolaeth o weithio'n llwyddiannus gyda staff, undebau llafur, sefydliadau allanol yn y sector cyhoeddus a phreifat a sefydliadau yn y sector gwirfoddol | Hanfodol |
| **Effeithlonrwydd Personol / Sgiliau Allweddol** | |
| Galluoedd i weithio'n gydweithredol gyda phobl eraill, gan feithrin diwylliant o waith tîm a chyfrifoldeb cymunedol. | Hanfodol |
| Ymrwymiad i lywodraeth leol ddemocrataidd gydag ymwybyddiaeth o fod yn sensitif i gyd-destun gwleidyddol y rôl a'r gallu i fod yn ddiduedd, i reoli perthnasoedd gwleidyddol a gweithio gyda phleidiau gwleidyddol a chynnal eu hymddiriedaeth. | Hanfodol |
| Sgiliau arwain cryf gyda'r gallu i feddwl yn strategol, yn greadigol ac yn arloesol a gweithredu syniadau mewn modd effeithiol tra'n bod yn agored i syniadau newydd | Hanfodol |
| Ymrwymiad i egwyddorion ac arferion gofal cwsmeriaid, gan sicrhau rhagoriaeth wrth ddarparu gwasanaethau a chydnabod ei effaith ar ddefnyddwyr y gwasanaeth | Hanfodol |
| Sgiliau cyfathrebu ardderchog a'r gallu i gysylltu ag ystod eang o gynulleidfaoedd a defnyddio gwahanol gyfryngau fel sy'n briodol | Hanfodol |
| Sgiliau trafod cryf gyda record o gyflawniad a llwyddiant yn y gorffennol | Hanfodol |

| | |
|---|---|
| Ymrwymiad clir i gynnal egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth | Hanfodol |
| **Amgylchiadau Personol** | |
| Gan ddefnyddio eu trefniadau teithio personol eu hunain, rhaid i ddeiliad y swydd allu mynychu lleoliadau ar draws y sir ar fyr rybudd iawn, er mwyn ymateb yn brydlon i ofynion gweithredol a gwasanaeth (gan gynnwys sefyllfaoedd brys). | Hanfodol |
| Parodrwydd i weithio oriau afreolaidd i gwrdd ag anghenion y gwasanaeth | Hanfodol |
| **Gallu Ieithyddol** | |
| **Saesneg:** Ystyrir bod y gallu i ymgymryd â thasgau'r swydd uchod trwy gyfrwng yr Iaith Saesneg yn hanfodol ar ALTE Lefel 5, (llafar), Lefel 5 (darllen) a Lefel 5 (ysgrifennu) ar benodiad.<br>**Cymraeg:** Ystyrir bod y gallu i ymgymryd â thasgau'r swydd uchod trwy gyfrwng yr Iaith Gymraeg yn hanfodol. Gall y Cyngor ystyried ymgeisydd lle y cytunir bod ymrwymiad i gyrraedd ALTE Lefel 3, (llafar), Lefel 3 (darllen) a Lefel 3 (ysgrifennu) o fewn dwy flynedd. | Hanfodol |
| **Cyfyngiad Gwleidyddol** | |
| Mae’r swydd hon yn gyfyngedig yn wleidyddol | |